Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cafcass Cymru

# Cam-drin Domestig a 'Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant'

Mai 2025



llyw.cymru

# Cam-drin Domestig a ‘Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant’

**Nid yw Syndrom Dieithrio Plentyn oddi wrth Riant yn gyflwr iechyd cydnabyddedig nac yn derm a gefnogir gan Cafcass Cymru na’r Cyngor Cyfiawnder Teuluol.[1]**

Ni chaiff y term ei gydnabod gan Gonfensiwn Istanbwl, sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y DU, ac ni dderbynnir y term gan Sefydliad Iechyd y Byd ychwaith.

- Mae arbenigwyr ac ymchwilwyr o’r farn mai ffugwyddor yw dieithrio plentyn oddi wrth riant i raddau helaeth; fodd bynnag, mae wedi dod yn dacteg ymgyfreitha allweddol a ddefnyddir gan unigolion sy’n cam-drin mewn achosion llys teulu, yn enwedig pan gaiff ei defnyddio mewn ymateb i ddatgeliadau cam-drin domestig.[2]
- Er bod achosion lle gall un rhiant neu’r ddau ddangos ymddygiadau dieithrio, mae’n bwysig ystyried cymhellion a chyd-destun llawn yr ymddygiad hwn, mewn perthynas â diogelwch a llesiant y plentyn/plant cyn gwneud argymhellion.
- Mewn achosion cam-drin, mae’n rhaid i ni ystyried a yw ymddygiadau dieithrio yn cael eu codi er mwyn annilysu ymdrechion y dioddefwr-oroeswr i amddiffyn neu er mwyn cydymffurfio â chanfyddiad y cyflawnwr o realiti. Mae’n rhaid i ni fod yn ymwybodol o’r hyn y gall unigolion sy’n cam-drin ei wneud, a’r hyn y maent yn ei wneud, i ddylanwadu ar weithwyr proffesiynol er mwyn ceisio cadw rheolaeth.
- Mae’r Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2024) hefyd wedi datgan, o ran eu niwed a’u cyffredinrwydd cymharol, na ellir ystyried bod cam-drin domestig ac ymddygiadau dieithrio yn gyfartal a bod achosion gwirioneddol o ymddygiadau dieithrio yn brin, er bod ymddygiadau dieithrio neu ‘ddieithrio plentyn oddi wrth riant’ yn cael eu codi’n rheolaidd mewn llysoedd teulu.[3]
- Mae’n bosibl hefyd y bydd plant a phobl ifanc yn gwneud penderfyniadau annibynnol yn seiliedig ar eu profiad bywyd o riant. Mae’r rhain yn ddilys a dylid eu hystyried o fewn cyd-destun llawn dynameg y teulu.
- Mae barn plant a phobl ifanc yn bwysig; mae gwrando ar eu hymatebion i gam-drin ac asesu’r ymatebion hynny yn hollbwysig er mwyn rhoi ymreolaeth iddynt a pharchu eu hawl i gymryd rhan ym mhroses y llys.

1 Family Justice Council Guidance on responding to allegations of alienating behaviour 2024
2 A collective international response to the claim that so-called ‘parental alienation’ is a well-studied ‘gender neutral’ empirical phenomenon which can easily be measured (researchgate.net)
3 Family Justice Council Guidance on responding to allegations of alienating behaviour 2024

## Ymddygiadau Dieithrio neu Wrthodiad Priodol/Cyfiawn?

- Bydd cyflawnwyr cam-drin domestig yn ceisio rhoi’r bai ar rywun arall, neu wrthdroi beiusrwydd, drwy ddweud bod y dioddefwr-oroeswr yn dieithrio’r plentyn oddi wrthynt.
- O dan yr amgylchiadau hyn, mae’n bwysig ein bod yn cael ein tywys gan y dystiolaeth a/neu ganfyddiadau ac nad ydym yn colli golwg ar y gwahaniaeth rhwng penderfyniad cyfiawn neu briodol y plentyn i wrthod rhiant (a fydd yn digwydd yn aml pan fydd y plentyn wedi dioddef cam-drin domestig) a gwrthodiad a achosir gan ymddygiadau dieithrio bwriadol neu ddigyfiawnhad.
- Mae’n rhaid i ni hefyd gofio pan fydd achos o gam-drin domestig wedi cael ei ddatgelu, ond na chafodd ei gadarnhau yn ystod y broses canfod ffeithiau, nad yw’n golygu’n awtomatig fod y rhiant a wnaeth y datgeliad yn ceisio dieithrio’r plentyn yn fwriadol, a dylid cynnal ymholiadau pellach, yn unol â chyfarwyddyd y llys.

## Pwyntiau Ymarfer

Dylech gynnal eich cyfweliadau a’ch asesiadau o safbwynt sy’n seiliedig ar gam-drin domestig o’r dechrau’n deg er mwyn pennu cyd-destun, cymhellion posibl ac effaith plentyn sy’n gyndyn o gysylltu â rhiant neu’n gwrthod gwneud hynny.

- Dylech ddefnyddio dull gweithredu sy’n cynnal asesiad cam-drin domestig o’r dechrau’n deg er mwyn pennu a oes patrymau o ymddygiad sy’n gyfystyr â cham-drin domestig.
- Os bydd tystiolaeth neu awgrym bod rhiant yn ddioddefwr-oroeswr, ceisiwch gyfweld â’r unigolyn hwnnw yn gyntaf er mwyn cynnal asesiad risg a chyfyngu ar gyfle cyflawnwr i ddylanwadu ar asesiad.
- Os rhoddwyd gwybod am achosion o drais, ystyriwch beth oedd y ffactorau cymhellol h.y. er mwyn cadw rheolaeth a goruchafiaeth, cosbi neu godi cywilydd, neu a oeddent yn ffordd o reoli ei hun, er mwyn hunanamddiffyn neu gynnal urddas?
- Ystyriwch y risg y bydd trais yn parhau neu’n gwaethygu ac effaith hyn ar blant, y dioddefwr-oroeswr, rhwydweithiau ehangach a’r cyflawnwr.
- Dylech osgoi iaith gilyddol; ‘mae’r ddau gynddrwg â’i gilydd’ a phethau tebyg.

Os nad yw plant neu bobl ifanc am dreulio amser teulu gyda’u rhiant, ystyriwch eu meddyliau, eu teimladau a’u profiadau bywyd ac a yw ymddygiadau neu weithredoedd rhieni (gan gynnwys trais posibl yn erbyn rhiant arall) wedi effeithio ar eu hawydd i barhau i dreulio amser teulu gyda’r rhiant.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52047, ISBN digidol 978-1-83715-713-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg